# Datganiad Parth Gwyliadwriaeth (Ffliw Adar)

Mae Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol mewn ardal yn Lloegr sy'n fwy na 3 a hyd at 10k o Gymru.

.

Yn unol ag erthygl 28(3) o'r Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn") ac o ystyried y gofynion yn erthygl 29(2) a'r meini prawf a amlinellir yn erthygl 29(5) o'r Gorchymyn hwnnw, mae Gweinidogion Cymru felly'n datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn **Atodiad 1** i'r Datganiad hwn yn Barth Gwyliadwriaeth y mae'r holl fesurau a nodir yn Atodlen 5 y Gorchymyn yn berthnasol iddo[2].

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth wedi'i nodi ar y map yn Atodiad 2.

Mae'r mesurau hyn yn gymwys o 18:00 ar 09 Chwefror 2025 hyd nes y caiff y Datganiad hwn ei ddirymu neu ei ddiwygio drwy ddatganiad pellach.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: 18:00 ar 09 Chwefror 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

*Gall methu â chydymffurfio â'r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

Mae'r mesurau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn wedi'u nodi yn Atodiad 1 er hwylustod cyfeirio. Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

---

[1] S.I. 2006/2927 (Cy. 262) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Orchymyn Ffliw Adar (Gwelliannau Amrywiol) (Cymru) 2023 OS /2023/1179 (Cy.206).

[2] Yn unol ag erthyglau 31(1) o'r Gorchymyn, mae'r mesuriadau o fewn Atodlen 5 yn berthnasol I'r parth gwarchod

**Atodiad 1**

**Parth Gwyliadwriaeth**

Mae'r Parth Gwyliadwriaeth yn cynnwys yr ardal honno yng Nghymru sydd wedi'i nodi ar y map yn Atodiad 2**,** o fewn y cylch du o radiws o 10 cilometr sydd yng nghanol cyfeirnod grid SJ3356279128. Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

**Y Mesurau mewn Parth Gwyliadwriaeth:**

**Cofnod o ymwelwyr**

**1.** Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i feddiannydd y parth lle cedwir y dofednod neu adar caeth eraill gadw cofnodion o—

(a) enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n ymweld â'r safle (oni bai bod yr ymweliad i ran o'r safle yn unig lle mae pobl yn byw a lle na chedwir unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill);
(b) dyddiad yr ymweliad;
(c) a yw'r person wedi cael unrhyw gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle.

**Cofnod o ddofednod**

**2.** Mae'n rhaid i feddiannydd unrhyw safle yn y parth wneud y canlynol –

(a) cadw cofnod o'r holl ddofednod sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle hwnnw cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl y symud.
(b) Hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith ynghylch unrhyw forbidrwydd neu farwolaethau cynyddol neu leihad sylweddol yn nifer yr wyau a gynhyrchir neu, lle bo'n berthnasol, leihad yn y bwyd neu'r diod a ddefnyddir, neu unrhyw wybodaeth arall berthnasol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu wyau ar y safle.

**Cofnod o symudiadau dofednod**

**3.** Yn amodol ar baragraff 5, mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n ymwneud â chludo neu farchnata dofednod neu wyau dofednod yn y parth wneud cofnod cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol o'r holl ddofednod ac wyau dofednod y mae wedi'u cludo neu eu marchnata.

**Symudiadau dofednod i'w cofnodi**

**4.** Mae'n rhaid i'r cofnodion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 2 a 3 uchod gynnwys—
(a) swm a disgrifiad (yn cynnwys rhywogaethau'r dofednod neu fath o wy) a gludwyd neu a farchnatwyd;
(b) yn achos symud o safle yn y parth—
(i) dyddiad y symud o'r safle;
(ii) safle cyrchfan (os yw'n hysbys);

    (iii) enw a chyfeiriad y person y mae perchnogaeth neu feddiannaeth yn cael ei throsglwyddo neu wedi'i throsglwyddo iddo;
- (c) yn achos symud i safle yn y parth—
    - (i) dyddiad y symud;
    - (ii) y safle y symudwyd ohono (os yw'n hysbys);
    - (iii) enw a chyfeiriad y person sydd neu sydd wedi trosglwyddo perchnogaeth neu feddiannaeth;
- (d) yn achos marchnata heb symud cysylltiedig, enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y feddiannaeth iddo a'r dyddiad;

**Cwmpas dyletswyddau cadw cofnodion**

**5.** Nid yw paragraffau 1 a 3 yn berthnasol i'r canlynol—
- (a) symud wyau'n uniongyrchol i safle manwerthu, ar neu o safle o'r fath neu'n dilyn symudiad o'r fath;
- (b) symudiad pobl i sŵau, parciau bywyd gwyllt neu (oni bai ei fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru) unrhyw safle arall sy'n agored i'r cyhoedd, cyn belled nad oes gan y cyhoedd fynediad at unrhyw ardal lle mae adar yn cael eu cadw;
- (c) symudiad y canlynol i safle lle mae dofednod neu adar caeth eraill yn cael eu cadw—
    - (i) unrhyw berson ar hawl dramwy gyhoeddus neu sy'n defnyddio hawl dramwy i gael mynediad i'r safle;
    - (ii) tresmaswyr;
    - (iii) unrhyw berson sy'n gweithredu'r Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, adar caeth eraill a mamaliaid ar ac oddi ar safle**

**6.** (1) Yn amodol ar is-baragraff (2), ni chaiff unrhyw berson symud dofednod, adar caeth eraill na mamaliaid i neu o safle yn y parth lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill, oni bai bod y symud wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn berthnasol i anifeiliaid anwes—
- (a) sydd ddim ond yn gallu cael mynediad i ran honno o'r safle lle mae pobl yn byw;
- (b) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod neu adar caeth eraill ar y safle; ac
- (c) nad oes ganddynt fynediad i unrhyw gewyll neu ardaloedd ar y safle lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill.

**Mesurau bioddiogelwch**

**7.** Mae'n rhaid i'r meddiannydd ac unrhyw berson sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle yn y parth lle cedwir dofednod, neu adar caeth eraill neu wyau—
- (a) gymryd mesurau bioddiogelwch fel y mae'n ystyried sydd eu hangen i leihau'r risg o ledaenu ffliw adar i neu o'r safle; a
- (b) chydymffurfio ag unrhyw ofynion bioddiogelwch y mae arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad iddo, yn eu gosod.

**Sarn, tail dofednod a slyri**

**8.** (1) Ni chaiff unrhyw berson symud na lledaenu sarn dofednod a ddefnyddiwyd, tail dofednod na slyri dofednod yn y parth oni bai bod arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol wedi trwyddedu hynny.
(2) Gall symud tail dofednod, gyda mesurau bioddiogelwch priodol, gael ei awdurdodi gan arolygydd milfeddygol, o safle sydd o fewn parth gwyliadwriaeth i safle dynodedig, ar gyfer trin neu storio ar unwaith ar gyfer triniaeth yn nes ymlaen, er mwyn lleihau risg lledaenu feirws y ffliw adar.

**8A. Cyfyngiadau ar symud carcasau dofednod ac adar caeth eraill o fewn y parth**

(1) Ni chaiff unrhyw berson symud carcasau dofednod neu adar caeth eraill o safleoedd yn y parth.
(2) Fodd bynnag, gall arolygydd milfeddygol neu arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol roi trwydded i symud carcasau dofednod neu adar caeth eraill at ddiben gwaredu neu roi diagnosis o safle o fewn y parth.

**Crynoadau o ddofednod**

**9.** Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill gael eu casglu mewn unrhyw ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu unrhyw grynhoad arall yn y parth.

**Rhyddhau adar hela**

**10.** (1) Ni chaiff unrhyw berson ryddhau adar hela.

(2) At ddiben y paragraff hwn, mae adar hela’n cynnwys ffesantod, petrys, grugieir coch, grugieir du neu rugieir yr eira neu hwyaid sydd wedi’u magu ar gyfer eu hela.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod ac wyau o fewn y parth**

**11.** (1) Yn amodol ar baragraff 12, ni chaiff unrhyw berson symud unrhyw ddofednod neu wyau o fewn y parth (heblaw am drwy’r porth ar y ffyrdd neu’r rheilffyrdd heb aros), oni bai eu bod yn cydymffurfio â’r holl fesurau bioddiogelwch perthnasol a osodir gan arolygydd milfeddygol yn unol ag amodau trwydded.
(2) Ni chaiff meddiannydd safle y symudir dofednod yno symud y dofednod yna o’r safle yna am gyfnod o o leiaf 21 diwrnod o’r dyddiad y symudwyd y dofednod i’r safle hwnnw.

**Dosbarthu wyau cyfanwerthu a manwerthu o fewn y parth**

12. Nid yw paragraff 11 yn gymwys i symud wyau yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthol neu fanwerthu, nac yn dilyn symudiad o'r fath.

**Mesurau bioddiogelwch**

13. Rhaid i arolygydd milfeddygol beidio â rhoi trwydded o dan baragraff 11 oni bai ei fod yn fodlon y bydd y trwyddedai yn cymryd mesurau bioddiogelwch priodol a rhaid i gymryd mesurau o'r fath fod yn amodau'r drwydded.

**Symud dofednod i ladd-dy**

14. Gall arolygydd milfeddygol drwyddedu symudiad dofednod o'r tu allan i unrhyw barthau amddiffyn a gwyliadwriaeth ffliw adar i ladd-dy o fewn y parth gwyliadwriaeth a symudiadau dilynol y cig sy'n deillio o ddofednod o'r fath.

**Cyfyngiadau ar symud dofednod, wyau, cig dofednod, semen, samplau gwaed a charcasau y tu allan i'r parth**

15. (1) Yn ddarostyngedig i baragraff 16, nid oes unrhyw berson i symud unrhyw ddofednod neu adar caeth eraill, nac unrhyw wyau, semen, samplau gwaed neu garcasau o unrhyw ddofednod neu unrhyw adar caeth eraill allan o'r parth, oni bai bod y mudiad—

(a) symudiad a nodir yn is-baragraff (2); a

(b) wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd milfeddygol o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol

(2) Mae'r symudiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yn symudiadau o ran y canlynol—

(a) dofednod i'w lladd (os bodlonir gofynion paragraff 17);

(b) cywion undydd o wyau sy'n tarddu o fewn y parth gwyliadwriaeth neu wyliadwriaeth neu wyau a ddaeth i gysylltiad ag wyau o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 18);

(c) cywion undydd o wyau sy'n tarddu y tu allan i'r parthau diogelu a gwyliadwriaeth a gedwir ar wahân i wyau a gynhyrchir mewn parth o'r fath (os bodlonir gofynion paragraff 19);

(d) dofednod sy’n barod i ddodwy neu ddofednod magu a symud i safle neu ran o unrhyw safle lle nad oes dofednod yn cael eu cadw;

(e) wyau deor o'r parth—

(i) i ddeorfa ddynodedig; neu

(ii) i safle dynodedig i'w defnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol

(os bodlonir gofynion paragraff 20 yn y ddau achos);

(f) wyau i ganolfan becynnu wyau dynodedig (os bodlonir gofynion paragraff 21);

(g) wyau i safle prosesu wyau;

(h) wyau i'w gwaredu.

(i) dofednod i filfeddygfa ar gyfer triniaeth, neu i'r safle gwreiddiol pan ddychwelir yn dilyn symudiad o'r fath.

(j) semen i safle bridio neu i safle dynodedig at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol;

(k) samplau gwaed i labordy neu filfeddygfa at ddibenion gwyddonol neu ddiagnostig.

**Dosbarthu wyau bwrdd i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu**

16. Nid yw paragraff 15 yn gymwys i symud wyau bwrdd yn uniongyrchol i safleoedd cyfanwerthu neu fanwerthu neu ar ôl symudiad o'r fath.

**Gofynion ar gyfer symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig**

17. Ni ddylid symud dofednod o safle yn y parth i ladd-dy dynodedig y tu allan i'r parth oni bai - –

(a) bod y symudiad yn dechrau o fewn 24 awr i gwblhau archwiliad milfeddygol o'r dofednod yn y safle, a

(b) bod y Gweinidog priodol sy'n gyfrifol am y lladd-dy dynodedig wedi awdurdodi symud y dofednod hynny.

**Gofynion ar gyfer symud cywion undydd sydd wedi deor o wyau a gynhyrchir o fewn y parth amddiffyn neu wyliadwriaeth neu o wyau sydd wedi dod i gysylltiad ag wyau o'r fath**

18. Ni ddylid symud cywion undydd o wyau a gynhyrchir o fewn y parth amddiffyn neu wyliadwriaeth neu wyau sydd wedi cael cyswllt ag wyau o'r fath oni chydymffurfir ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a osodwyd gan arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad neu amod trwydded.

**Gofynion ar gyfer symud cywion undydd sydd wedi deor o wyau sy'n tarddu y tu allan i'r parthau amddiffyn a gwyliadwriaeth**

19. Ni ddylid symud cywion undydd o wyau sy'n tarddu y tu allan i unrhyw barthau amddiffyn a gwyliadwriaeth rhag ffliw adar oni bai bod y ddeorfa o fewn y parth yn cael ei gweithredu yn y fath fodd fel nad yw wyau o'r tu allan i'r parth yn dod i gysylltiad ag wyau neu gywion undydd o fewn y parth.

**Gofynion ar gyfer symud wyau deor o'r parth i ddeor ddynodedig, neu i safle dynodedig i'w ddefnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol**

20. Ni ddylid symud wyau deor o'r parth i ddeorfa ddynodedig, nac i safle dynodedig i'w ddefnyddio at ddibenion gwyddonol, diagnostig neu fferyllol oni bai bod yr wyau a'u deunydd pecynnu yn cael eu diheintio cyn iddynt adael y safle.

**Gofynion ar gyfer symud wyau i ganolfan pecynnu wyau**

21. Ni ddylid symud wyau i ganolfan becynnu wyau dynodedig oni bai —

(a) eu bod wedi’u rhoi mewn pecynnau neu fod deunydd becynnu tafladwy sydd wedi'i lanhau a'i fdiheintio wedi’i ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol; a

(b) bod unrhyw berson sy'n cludo'r wyau yn cydymffurfio ag unrhyw fesurau bioddiogelwch a osodir gan arolygydd milfeddygol.

**Glanhau a diheintio cerbydau sy'n cario unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi**

22. Rhaid i berson sy'n cludo unrhyw ddofednod, aderyn caeth arall, cig, bwyd anifeiliaid, tail, slyri, sbwriel neu unrhyw beth arall y gellir ei halogi lanhau a diheintio'r cerbyd ac unrhyw offer a ddefnyddir i gludo'r peth hwnnw cyn gynted ag y caiff ei ddadlwytho, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

**Glanhau a diheintio cerbydau**

23. Rhaid i berson sy'n mynd i mewn i'r parth neu'n gadael safle yn y parth mewn cerbyd lanhau a diheintio ar unwaith unrhyw ran o'r cerbyd a allai fod wedi'i halogi, yn unol ag erthygl 66 o'r Gorchymyn.

**Atodiad 2**

**Map yn dangos y Parth Gwyliadwriaeth (10km) y mae'r canol yng nghyfeirnod grid SJ3356279128.**

Cyfeirnod grid Arolwg Ordnans yw hwn [cyfres Landranger 1:110,000].

